# Y Pwyllgor Deisebau

## PET(3) 07-09 : Cofnodion

**Dyddiad: dydd Mawrth 05 Mai 2009**
**Amser: 09:31- 10:47am**
**Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 1, Y Senedd, Bae Caerdydd**

### Aelodau'r Cynulliad yn bresennol

Val Lloyd AC, Dwyrain Abertawe (Cadeirydd)

Andrew RT Davies AC, Canol De Cymru

Mike German AC, Dwyrain De Cymru

Bethan Jenkins AC, Gorllewin De Cymru

### Swyddogion

Siân Phipps, Clerc

Alun Davidson, Dirprwy Glerc

Joanest Jackson, Cynghorwr Cyfreithiol

### Cyflwynwyr

John Hosford, Deisebydd

### 1. Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

### 2. Sesiwn dystiolaeth: Deiseb P-03-172 Fferi Abertawe - Corc

Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth lafar gan y deisebydd.

#### Camau i'w cymryd

Cytunodd y Pwyllgor i:

Anfon y dystiolaeth a gyflwynwyd gan y deisebydd at Ddirprwy Brif Weinidog Cymru i'w ystyried ac er mwyn llywio'i drafodaethau ar y mater yn y dyfodol

Cael copi o ymchwil marchnata Coleg Prifysgol Corc y cyfeiriwyd ato gan y deisebydd

Cael gwybodaeth am y llong y mae'r West Cork Tourism Co-operative yn gobeithio'i phrynu, yn nhermau ei haddasrwydd ar gyfer gweithredu ar Fôr Iwerddon

### 3. Deisebau newydd

### (i) P-03-206 Nofio am ddim drwy'r flwyddyn i blant a phobl ifanc

Ystyriodd y Pwyllgor y ddeiseb hon am y tro cyntaf.

#### Camau i'w cymryd

Cytunodd y Pwyllgor i:

Ystyried adroddiad y Pwyllgor Archwilio ar weithgarwch corfforol yng Nghymru, ac ymateb y Gweinidog dros Dreftadaeth i'r argymhellion a wnaed yn yr adroddiad hwnnw, yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Deisebau

### (ii) P-03-211 Cyfleusterau gofal i ddioddefwyr demensia

Ystyriodd y Pwyllgor y ddeiseb hon am y tro cyntaf.

#### Camau i'w cymryd

Cytunodd y Pwyllgor i:

Ofyn i'r prif ddeisebydd ddarparu rhagor o wybodaeth gefndir i'r Pwyllgor am yr angen am y ddeiseb hon

### (iii) P-03-212 Lleihau traffig yn Llanelwy

Ystyriodd y Pwyllgor y ddeiseb hon am y tro cyntaf.

**Camau i'w cymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

Ofyn i Ddirprwy Brif Weinidog Cymru a fyddai ffordd liniaru i Lanelwy yn gefnffordd, ac a oes gan Lywodraeth Cymru unrhyw gynlluniau i adeiladu ffordd o'r fath

Gofyn i'r Clerc wirio Cofnod y Trafodion o unrhyw Gwestiynau yn y Cynulliad neu ddatganiadau a wnaed mewn perthynas â'r mater hwn

### (iv) P-03-213 Rhowch y gorau i'r cynllun difa moch daear

Ystyriodd y Pwyllgor y ddeiseb hon am y tro cyntaf.

**Camau i'w cymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

Ofyn i'r Gweinidog dros Faterion Gwledig am ei hymateb i farn y deisebwyr bod y 'dystiolaeth wyddonol gadarn' yn dod i'r casgliad 'na all difa moch daear wneud unrhyw gyfraniad ystyrlon i reoli TB mewn gwartheg'

### 4. Yr wybodaeth ddiweddaraf am ddeisebau blaenorol

### (i) P-03-072 Mesur Gofalwyr Ifanc

Ystyriodd y Pwyllgor yr wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Camau i'w cymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

Ychwanegu'r cynnig hwn at y banc o ddeddfwriaeth arfaethedig, i'w ystyried gan holl Aelodau'r Cynulliad

Rhoi gwybod i'r Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol am y Mesur arfaethedig hwn

### (ii) P-03-081 Rheoliadau benthyciadau myfyrwyr

Ystyriodd y Pwyllgor yr wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Camau i'w cymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

Ofyn i Fwrdd Rhaglen Fferylliaeth Adran Iechyd y DU ystyried y materion a godwyd gan y ddeiseb hon

Gofyn i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol am yr wybodaeth ddiweddaraf am y sefyllfa mewn perthynas ag optometreg

### (iii) P-03-137 Hypothyroidedd yng Nghymru

Ystyriodd y Pwyllgor yr wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Camau i'w cymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

Ofyn i Goleg Brenhinol y Ffisigwyr am ei farn ar y ddeiseb

Gofyn i'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol (NICE) am ei farn ar y ddeiseb hon

### (iv) P-03-162 Gwelliannau i'r A40 ger Llansbyddyd

Ystyriodd y Pwyllgor yr wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Camau i'w cymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

Aros am adolygiad diogelwch drwy Llansbyddyd y cyfeiriwyd ato gan Ddirprwy Brif Weinidog Cymru yn ei lythyr diweddar at y Cadeirydd

### (v) P-03-185 Cynllun Adfywio Llanilltud Fawr

Ystyriodd y Pwyllgor yr wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Camau i'w cymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

Ofyn i'r prif ddeisebydd am sylwadau ar yr ymateb i'w ddeiseb gan y Gweinidog dros Faterion Gwledig, a'r cyngor y mae wedi ei gynnig ar gyfer ceisiadau yn y dyfodol

### (vi) P-03-187 Diddymu'r Tollau ar ddwy Bont Hafren

Ystyriodd y Pwyllgor yr wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Camau i'w cymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

Ofyn i Ddirprwy Brif Weinidog Cymru am wybodaeth am yr anghysondeb amlwg rhwng ateb a roddodd ar 18 Chwefror 2008 a'i lythyr at y Pwyllgor

### (vii) P-03-188 Uned Gofal Arbennig i Fabanod

Ystyriodd y Pwyllgor yr wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Camau i'w cymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

Ofyn i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol am yr wybodaeth ddiweddaraf am y sefyllfa bresennol yn yr Uned Gofal Arbennig i Fabanod yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg

### (viii) P-03-197 Achub y Vulcan

Ystyriodd y Pwyllgor yr wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Camau i'w cymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

Aros am ymateb gan Ddirprwy Brif Weinidog Cymru ar y mater o brynu gorfodol

Gofyn i'r prif ddeisebydd am sylwadau ar y llythyr diweddar gan y Gweinidog dros Dreftadaeth, a dderbyniwyd gan y Cadeirydd, mewn perthynas â'r ddeiseb hon

Gofyn i Cadw nodi pryd y mae'n rhagweld y bydd y meini prawf adolygedig ar gyfer rhestru yn barod

Gwahodd cynrychiolwyr o'r awdurdod cynllunio lleol a Cadw i fod yn bresennol mewn cyfarfod anffurfiol gyda'r Pwyllgor yn y Vulcan

### (ix) P-03-202 Lwfans Cynhaliaeth Addysg

Ystyriodd y Pwyllgor yr wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon

**Camau i'w cymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

Aros am ganlyniad ymchwiliad byr y Pwyllgor Menter a Dysgu i'r ddeiseb hon.

**Gwasanaeth y Pwyllgorau**

**Mai 2009**